Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Coed Derw**

**Uned 24, Parc Busnes Stradey**
**Mwrwg Road**
**Llangennech**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 8YP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Coed Derw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Coed Derw Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Cânt gyfleoedd i wneud dewisiadau ac maent yn dangos brwdfrydedd a diddordeb yn eu chwarae ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn briodol. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwrpasol yn seiliedig ar chwarae.

Mae gan y staff gydberthnasau da a chadarnhaol â'r plant ac maent yn gofalu am y plant ac yn canmol eu hymdrechion. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau eu bod yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gwbl gyfarwydd â'r polisi amddiffyn plant a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn i sicrhau eu bod bob amser yn cadw'r plant i gyd yn ddiogel.

Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn amgylchedd sy'n groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn rhoi cyfleoedd da i'r plant chwarae a dysgu. Mae amrywiaeth o lefydd chwarae a digon o adnoddau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r adnoddau a'r cyfarpar yn diwallu anghenion y plant yn dda. Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel ac yn cynnig ardaloedd chwarae fel estyniad i'r amgylchedd dan do.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn angerddol am eu lleoliad ac yn ceisio darparu lleoliad da. Fodd bynnag, maent wedi cael profiad o heriau sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad, nid ydynt yn sicrhau eu bod yn arwain ac yn rheoli'r lleoliad yn rheolaidd ac yn effeithiol. Nid ydynt yn cynnal cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Mae AGC wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth mewn perthynas â'r niferoedd staffio ac wedi codi Meysydd i'w Gwella mewn perthynas â threfniadau hysbysu AGC, cadw cofnodion a chynnal arfarniadau blynyddol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser yn y feithrinfa. Gallant ddewis beth i chwarae ag ef a gallant wneud dewisiadau drwy gydol eu diwrnodau. Er enghraifft, mae'r plant yn hapus wrth ddewis dychwelyd i'r ardal chwarae blêr ar ôl chwarae gyda'r blociau adeiladu. Mae plant o bob oed a chyfnod datblygu yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn gwybod bod y staff yn gwrando ar eu hanghenion ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Mae lleisiau'r plant yn bwysig yn y lleoliad. Caiff eu diddordebau eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol.

Mae’r plant yn hapus iawn, wedi setlo ac yn hyderus yn y lleoliad. Maent yn mwynhau mynychu'r lleoliad ac yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni/gofalwyr ac maent yn meithrin cydberthnasau emosiynol â'r staff sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom y plant bach yn barod i fynd at y staff i gael sicrwydd a chwtsh os bydd angen. Mae plant o bob rhan o'r lleoliad yn gofyn am help a chymorth gan y staff yn hyderus. Maent yn gwahodd y staff i chwarae yn frwdfrydig ac yn gwenu'n hapus wrth sgwrsio â nhw. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r staff. Maent yn siarad am eu chwarae ac mae nifer o'r plant yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd, er enghraifft, gwelsom y plant iau yn eistedd gyda'i gilydd i gwblhau jig-so. Mae'r plant yn cydweithio'n dda ac yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan. Cawsom groeso cynnes ganddynt, ac roeddent yn gyffrous i siarad â ni ac i ddangos eu teganau. Mae'r plant yn dysgu i gymryd eu tro ac i rannu adnoddau.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol. Er enghraifft, gwelsom y plant yn mwyhau gweithgaredd chwarae bler yn yr hambwrdd twff, y plant iau yn chwarae rôl gyda doliau a'r babanod yn gwrando'n astud ar straeon. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn datblygu sgiliau annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Mae'r plant hŷn yn defnyddio'r toiledau ac yn golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol, tra bod y plant iau yn cael cymorth gan y staff. Dywedodd y bobl yn y lleoliad wrthym fod y plant hŷn yn gosod powlenni a chwpanau a'u bod yn defnyddio cyllyll i dorri eu ffrwythau eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn dysgu i barchu eu teganau ac i gadw'r amgylchedd yn ddiogel i blant eraill, drwy dacluso'r teganau ar ôl eu defnyddio.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol o nifer o bolisïau'r lleoliad i hyrwyddo ffyrdd o fyw a gweithgareddau corfforol y plant ac yn eu deall, ac maent yn rhoi nifer o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn ymwybodol o bolisi diogelu'r lleoliad ac ni allant ddangos dealltwriaeth glir o weithdrefnau'r lleoliad. Roedd y polisïau diogelu a ddarparwyd yn ystod yr arolygiad yn gyfredol, yn gywir ac yn dangos gweithdrefn glir i'w dilyn wrth ddatgelu achos. Mae'r arweinwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o'r polisi, ond ni chaiff ei rannu â phob aelod o'r staff, sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth ymysg rhai aelodau o'r staff.

Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid yn ddigonol, gan olchi eu dwylo cyn paratoi byrbryd a diheintio byrddau cyn gweini bwyd. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, fel cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Caiff cofnodlyfrau damweiniau eu llenwi, a rhoddir copïau ohonynt i'r rhieni. Caiff cofnodlyfrau meddyginiaeth eu cwblhau, ond nid ydynt yn cynnwys yr amser y rhoddwyd y dos diwethaf cyn i'r plentyn gyrraedd y lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y dydd ac mae chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol yn flaenoriaeth iddynt.

Mae'r staff yn ofalgar ac yn fagwrus ac maent wedi ymgyfarwyddo â'u rolau gofal plant yn dda. Gallant esbonio eu cyfrifoldebau eu hunain. Maent yn hyderus ac mae nifer ohonynt yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ddiwallu anghenion y plant. Mae'r staff yn rhyngweithio ac yn sgwrsio â'r plant mewn ffordd gynnes gan fynd lawr at eu lefel. Er enghraifft, mae'r staff yn rhyngweithio mewn ffordd ofalgar wrth helpu plentyn i ddod o hyd i'w gysurydd, gan wybod a gwerthfawrogi pwysigrwydd yr eitem i'r plentyn. Clywsom sawl aelod o'r staff yn cynnig canmoliaeth ac anogaeth, ac mae llawer o'r staff yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd am eu dyletswyddau dyddiol. Fodd bynnag, mae'r cyfnodau pan nad oes digon o staff yn bresennol yn y feithrinfa i ofalu am y plant sy'n bresennol yn heriol. Gall hyn arwain at fethiant y staff i oruchwylio'r plant yn effeithiol a rheoli ymddygiadau heriol o bryd i'w gilydd. Mae llawer o'r staff yn dangos mwynhad wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r plant. Er enghraifft, gwelsom y staff yn eistedd gyda'r plant wrth iddynt roi sgarffiau a blancedi ar eu doliau.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau cynhwysfawr ar waith mewn perthynas â'r amgylchedd ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Caiff y fynedfa flaen ei chloi bob amser, a dim ond uwch-aelodau o'r staff all rhoi caniatâd mynediad. Mae'r rheolwyr yn adolygu'r asesiadau risg ar gyfer pob ardal o'r lleoliad ac unrhyw deithiau a gynhelir yn rheolaidd. Mae'r tystysgrifau yn gyfredol, gan gynnwys dogfennau gwasanaethu'r boeler nwy, profion trydanol, a gwiriadau diogelwch tân. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd yn ogystal â chynnal gwiriadau rheolaidd ar y system larwm. Caiff deunyddiau glanhau eu storio'n briodol mewn cypyrddau dan glo neu allan o gyrraedd y plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn addas i blant ac mae digon o le i'r plant chwarae. Mae'r lleoliad wedi'i addurno â lliwiau tawel a niwtral. Mae'r staff yn trefnu'r ystafelloedd chwarae yn effeithiol, gan hyrwyddo pob rhan o ddatblygiad y plant. Mae amrywiaeth dda o adnoddau pwrpasol y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd, gan gynnwys eitemau bywyd go iawn, blociau adeiladu, doliau amlddiwylliannol, jig-sos a llyfrau. Mae arddangosiadau ar y waliau yn dathlu gwaith celf y plant a'u cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Dywedodd y bobl yn y lleoliad wrthym fod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn datblygu pob ardal yn barhaus er mwyn sicrhau ei bod yn gyffrous ac yn ennyn chwilfrydedd y plant.

Mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gael ym mhob ystafell ac mae'r adnoddau yn hygyrch iawn. Mae'r plant yn cael budd o adnoddau sy'n briodol i'w hoedran a'u camau datblygiad ac sy'n hyrwyddo eu chwilfrydedd a'u sgiliau darganfod. Maent yn dysgu am agweddau ar ddiwylliannau amrywiol fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwrnod Sant Ffolant. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant, er enghraifft byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel. Mae nifer addas o doiledau a chyfleusterau newid cewynnau ar gael, sy'n lân ac yn ffres. Mae sebon a chyfleusterau sychu dwylo ar gael yn hawdd i gefnogi annibyniaeth y plant wrth olchi eu dwylo.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben ar waith ac mae'r polisïau wedi cael eu diweddaru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r lleoliad wedi wynebu heriau sylweddol a newidiadau o ran staffio. Mae'r feithrinfa wedi wynebu cyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol yn sgil anawsterau recriwtio staff newydd. O ganlyniad i hyn, nid yw'r lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â phob Rheoliad a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn frwdfrydig am ei rôl ac yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn cael gofal. Mae'n gofalu am ei staff ac maent yn canmol y cymorth a roddir iddynt ganddi.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn dyrannu'r staff yn effeithiol yn ystod y dydd, ac mae hyn yn arwain at gymhareb staff i blant anghywir. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd digon o staff ar gael ar gyfer y nifer o blant a oedd yn bresennol. Mae hyn yn effeithio ar y staff a'r plant. Cyrhaeddodd staff asiantaeth yn ddiweddarach. Felly, rydym wedi cyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r mater hwn. Nid yw'r broses cadw cofnodion bob amser yn gyson, ac ni chaiff cofnodion cyrraedd a gadael y staff a'r plant bob amser eu cwblhau. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cefnogi'n dda a'u bod yn cael trafodaethau un i un anffurfiol yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym ei bod bob amser yn agored ac yn onest â nhw, a'u bod yn teimlo y gallant rannu unrhyw bryderon â hi. Fodd bynnag, nid yw'r staff wedi cael arfarniadau blynyddol priodol gan fod cyfrifoldebau eraill yn cael y flaenoriaeth yn y sefyllfa bresennol. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weithdrefnau ar waith i hunanwerthuso'r gwasanaeth. Maent wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal, ac mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am y gwelliannau a wnaed ac yn ystyried targedau er mwyn llywio gwelliannau. Mae cynlluniau ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad i arddangos y gwasanaeth ac i alluogi'r rhieni i rwydweithio â'i gilydd.

At ei gilydd, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag AGC ac yn ein hysbysu am unrhyw newidiadau i'r lleoliad. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael ein hysbysu am rai digwyddiadau sylweddol. Mae hwn felly yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau effeithiol ar waith i roi gwybodaeth i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal mae eu plant yn ei gael yn y lleoliad a pha mor dda maent yn datblygu. Maent yn dweud wrthym fod eu plant wrth eu bodd yn mynd i'r lleoliad a bod gan y staff amser iddynt drafod eu plant. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym fod ganddynt gydberthynas dda â'r ysgol leol a'r gymuned.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 27 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bob amser bod digon o staff yn bresennol i ofalu am y nifer o blant sy'n bresennol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod cofrestrau'n cael eu cwblhau bob amser ar gyfer y plant a'r staff. | Newydd |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei bod yn hysbysu AGC am bob digwyddiad o bwys mewn modd amserol. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei bod yn cynnal arfarniadau blynyddol â phob aelod o'r staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau y gall pob unigolyn sy'n gofalu am blant yn y lleoliad, gan gynnwys staff asiantaeth, weithredu'r polisi amddiffyn plant yn hyderus. |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Sicrhau bod y cofnodlyfrau meddyginiaeth yn dangos yn glir y dos diwethaf a gafodd y plentyn cyn iddo gyrraedd y lleoliad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/04/2024